**Lesley Griffiths AS**
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig

15 Chwefror 2021

Annwyl Weinidog,

Mae'r Pwyllgor wedi gwneud darn byr o waith yn ddiweddar ar iechyd anifeiliaid ac atal afiechydon. Pwrpas y gwaith hwn oedd edrych ar faterion cyfoes o fewn y maes polisi hwn ac, o bosibl, paratoi'r ffordd ar gyfer ymchwiliad mwy sylweddol gan ein holynydd yn y Chweched Senedd.

Nid ydym yn bwriadu cyflwyno adroddiad ar ein gwaith. Fodd bynnag, nododd rhanddeiliaid nifer o faterion y credwn y dylid eu hystyried ymhellach. O'r herwydd, byddem yn croesawu ymateb gennych ar y materion a nodir isod.

**Mesur cynnydd tuag at dargedau ar gyfer lleihau'r defnydd o wrthfiotigau**

Clywsom adroddiadau cadarnhaol gan randdeiliaid am y cynnydd a wnaed o ran lleihau'r defnydd o wrthfiotigau mewn anifeiliaid sy'n cynhyrchu bwyd a chyflawni Cynllun Gweithredu Pum Mlynedd Llywodraeth Cymru ar ymwrthedd gwrthficrobaidd. Rydym yn croesawu hyn ac yn gobeithio y bydd Llywodraeth newydd Cymru, gan weithio gyda'r diwydiant, yn adeiladu ar y cynnydd a wnaed hyd yma.

Roeddem yn falch o glywed y rhagorwyd ar y targed i leihau defnydd gwrthfiotig y DU mewn anifeiliaid sy'n cynhyrchu bwyd 25% rhwng 2016 a 2000 a hynny cyn yr amser. Nodwn fod y Gyfarwyddiaeth Meddyginiaethau Milfeddygol yn monitro'r defnydd a'i fod yn cael ei adrodd yn y Gwyliadwriaeth Ymwrthedd Gwrthficrobaidd a Gwerthiannau Milfeddygol. Mae'r data yn yr adroddiad yn cael ei ddarparu ar lefel y DU.

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddNHAMG@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCCERA@senedd.wales
0300 200 6565

**1. A allwch egluro a yw’r data ar ddefnyddio gwrthfiotigau mewn anifeiliaid sy’n cynhyrchu bwyd ar gael ar lefel y DU yn unig? Os felly, pa mor hyderus ydych chi bod y data yn rhoi darlun cywir ar y defnydd yng Nghymru?**

**2. Pa drefniadau sydd ar waith ar lefel Cymru i gasglu a mesur gwybodaeth am ddefnyddio gwrthfiotigau mewn anifeiliaid sy’n cynhyrchu bwyd?**

**3. Pa waith sydd wedi’i wneud hyd yma i ddiffinio targed 2025 (fel y nodir yng nghynllun gweithredu cenedlaethol pum mlynedd y DU, *Tackling antimicrobial resistance 2019-2024*) a phryd fydd y targed newydd yn ei le?**

**Deddfwriaeth yr Undeb Ewropeaidd**

Nodwn y bydd **Rheoliad (UE) 2019/6 ar Gynhyrchion Meddyginiaethol Milfeddygol a Rheoliad (UE) 2019/4 ar Borthiant Meddyginiaethol** yn berthnasol yn yr UE o fis Ionawr 2022. Mae’r rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer ystod o fesurau i frwydro yn erbyn ymwrthedd gwrthficrobaidd gan gynnwys gwahardd defnydd ataliol o gyffuriau gwrthficrobaidd drwy borthiant meddyginiaethol ac mewn grwpiau o anifeiliaid. Bydd cyfyngiadau hefyd ar ddefnydd metaffylactig o gyffuriau gwrthficrobaidd, a'r posibilrwydd i gadw rhai cyffuriau gwrthficrobaidd at ddefnydd pobl yn unig.

**4. A allwch egluro a yw’r rheoliadau uchod wedi dod yn gyfraith yr UE a ddargedwir, ac felly a fyddant yn berthnasol yn y DU? Os na, pa ystyriaeth a roddwyd i ddeddfu i gyflwyno mesurau tebyg yn y DU?**

**Y clafr**

Ym mis Ionawr 2019, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei bod yn ymrwymo £5 miliwn i sefydlu prosiect a arweinir gan ddiwydiant i helpu i gael gwared ar y clafr ar ffermydd yng Nghymru. Rydym yn deall nad yw’r prosiect hwn wedi’i sefydlu eto.

**5. A allwch chi egluro pam nad yw’r prosiect cael gwared ar y clafr wedi’i sefydlu eto a sut mae cyllid ar gyfer y prosiect wedi’i ailgyflwyno?**

**6. A allwch gadarnhau mai eich bwriad o hyd yw sefydlu’r prosiect a darparu llinell amser ddangosol ar gyfer hyn?**

**Ffliw adar**

Yn ystod ein gwaith, cadarnhawyd achos o Ffliw Adar Pathogenig Iawn yn Ynys Môn. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei bod yn ymestyn Parth Atal Ffliw Adar Cymru Gyfan a bod yn rhaid i bob ceidwad adar gartrefu eu hadar.

Clywsom gan randdeiliaid am yr angen i sicrhau bod pob ceidwad adar, waeth beth yw maint eu praidd, yn deall risg y clefyd ac yn cynnal bioddiogelwch da i atal y clefyd. Mae cyfathrebu effeithiol yn ganolog i hyn.

**7. A allwch chi egluro pa drefniadau sydd ar waith i gyfleu datblygiadau parhaus mewn perthynas â Ffliw Adar gyda cheidwaid adar yng Nghymru?**

**8. Beth yw'r heriau sy'n gysylltiedig â chyfathrebu â deiliaid haid iard gefn bach neu rai sy'n cadw adar fel anifeiliaid anwes, a sut ydych chi'n gweithio i'w goresgyn?**

**Dolur Rhydd Feirysol Buchol (BVD)**

Clywsom adroddiadau cadarnhaol am raglen sgrinio Gwaredu BVD, sy'n dod i ben ym mis Mawrth 2021. Rodd rhanddeiliaid o blaid cyflwyno rhaglen orfodol i sicrhau nad yw'r buddion sy'n deillio o raglen Gwaredu BVD yn cael eu colli pan ddaw i ben.

**9. A allwch chi amlinellu'ch cynlluniau ar gyfer y dyfodol o ran dileu BVD, gan gynnwys cynigion i gyflwyno sgrinio gorfodol?**

**Cadw gwyliadwriaeth ar iechyd anifeiliaid**

Rydym yn cydnabod rôl hanfodol cadw gwyliadwriaeth ar iechyd anifeiliaid wrth ganfod ac ymchwilio i glefydau newydd neu sy'n ail-ymddangos mewn anifeiliaid, gan gynnwys cyfraniad y sector milfeddygol a'r gymuned ffermio. Clywsom fod system cadw gwyliadwriaeth y DU dan bwysau ariannol. Roedd rhanddeiliaid yn pwysleisio'r angen i sicrhau lefel briodol o fuddsoddiad yn y system. Mae hyn yn arbennig o bwysig nawr ers i'r DU adael yr UE, er mwyn osgoi cael gostyngiad mewn safonau ac amddiffyniadau iechyd anifeiliaid ac i alluogi masnach mewn anifeiliaid a chynhyrchion anifeiliaid.

Fel aelod o'r UE, roedd y DU yn cael budd o systemau gwyliadwriaeth cyffredin. Pwysleisiodd rhanddeiliaid yr angen i sicrhau bod y gwaith gwyliadwriaeth cyffredin hwn yn parhau yn flaenoriaeth, gyda strwythurau ar waith i sicrhau cydweithredu a chydweithrediad parhaus rhwng y DU a'r UE.

**10. A allwch chi roi barn ar lefel bresennol y buddsoddiad yn system cadw gwyliadwriaeth ar iechyd anifeiliaid y DU a'r angen i gynyddu buddsoddiad ers i'r DU adael yr UE?**

**11. A allwch chi amlinell''r strwythurau sydd ar waith, neu a fydd yn cael eu rhoi ar waith, i sicrhau cydweithredu a chydweithrediad parhaus rhwng y DU a'r UE mewn perthynas â chadw gwyliadwriaeth ar iechyd anifeiliaid, gan gynnwys hysbysu am glefydau?**

**Rheolaethau symud da byw ac unedau cwarantin**

Mae'r rheol Rheol Chwe Diwrnod ar Wahardd Symud (SDSS), sy'n ceisio atal achosion o glefydau a lleihau lledaeniad y clefyd, wedi bod mewn grym ers dau ddegawd. Roedd rhai rhanddeiliaid o blaid cael adolygiad o'r rheol Rheol Chwe Diwrnod ar Wahardd Symud (SDSS).

Clywsom am bwysigrwydd Unedau Cwarantin fel mesur bioddiogelwch effeithiol ac fel ffordd o wella iechyd anifeiliaid. Er gwaethaf hyn, dywedodd rhai rhanddeiliaid fod y nifer sy'n manteisio ar gynllun Unedau Cwarantin Llywodraeth Cymru ymhlith ffermwyr yn isel. Yn ôl rhanddeiliaid, mae hyn oherwydd bod gofynion Unedau Cwarantin a rheolau gweithredol yn anymarferol ac yn gostus.

Rydym yn nodi bod argymhellion wedi'u gwneud yn dilyn yr adolygiad carreg filltir o Undebau Cwarantin yn 2018, sy'n ceisio ei gwneud hi'n haws i ffermwyr gael a chynnal Unedau Cwarantin. Roedd yr argymhellion i fod i gael eu gweithredu trwy gydol 2109-20.

**12. A allwch chi nodi pa waith sydd wedi'i wneud i adolygu effeithiolrwydd y rheol SDSS ers iddi gael ei chyflwyno gyntaf yn 2001?**

**13. Pa ystyriaeth ydych chi wedi'i rhoi i adolygu'r SDSS?**

**14. A allwch chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf am weithredu'r argymhellion a wnaed yn dilyn yr adolygiad carreg filltir o Unedau Cwarantin?**

**15. A allwch chi egluro a oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw gynlluniau pellach i weithio gyda'r diwydiant i hyrwyddo buddion Unedau Cwarantin a chynyddu'r nifer sy'n manteisio arnynt?**

Byddwn yn ddiolchgar o gael eich ymateb cyn gynted â phosibl, ac erbyn **dydd Llun 8 Mawrth** fan bellaf.

Yn gywir,



Mike Hedges AS
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg
We welcome correspondence in Welsh or English.